OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

# 2008 Rhif 2929 (Cy.258)

# ARDRETHU A PHRISIO, CYMRU

## Rheoliadau Cyfraniadau Ardrethu Annomestig (Cymru) (Diwygio) (Rhif 2) 2008

### NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau.)*

Mae'r Rheoliadau hyn, sy'n gymwys o ran Cymru, yn diwygio Rheoliadau Cyfraniadau Ardrethu Annomestig (Cymru) 1992 ("Rheoliadau 1992"). Mae'r Rheoliadau hyn yn dirymu Rheoliadau Cyfraniadau Ardrethu Annomestig (Cymru) (Diwygio) 2008.

O dan Ran II o Atodlen 8 i Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988 mae'n ofynnol i awdurdodau bilio (yng Nghymru, cynghorau sir a chynghorau bwrdeistref sirol) dalu symiau (a elwir yn gyfraniadau ardrethu annomestig) i Weinidogion Cymru. Mae Rheoliadau 1992 yn cynnwys rheolau ar gyfer cyfrifo'r cyfraniadau hynny ar gyfer awdurdodau bilio Cymru.

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau 1992 drwy roi Atodlen 4 newydd yn lle'r un bresennol (Ffigurau Poblogaeth Oedolion).

WELSH
STATUTORY INSTRUMENTS

# 2008 No. 2929 (W.258)

# RATING AND VALUATION, WALES

## The Non-Domestic Rating Contributions (Wales) (Amendment) (No. 2) Regulations 2008

### EXPLANATORY NOTE

*(This note is not part of the Regulations)*

These Regulations, which apply in relation to Wales, amend the Non-Domestic Rating Contributions (Wales) Regulations 1992 ("the 1992 Regulations"). These Regulations revoke the Non-Domestic Rating Contributions (Wales) (Amendment) Regulations 2008.

Under Part II of Schedule 8 to the Local Government Finance Act 1988 billing authorities (in Wales, county and county borough councils) are required to pay amounts (called non-domestic rating contributions) to the Welsh Ministers. The 1992 Regulations contain rules for the calculation of those contributions for Welsh billing authorities.

These Regulations amend the 1992 Regulations by substituting a new Schedule 4 (Adult Population Figures).

OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

# 2008 Rhif 2929 (Cy.258)

# ARDRETHU A PHRISIO, CYMRU

## Rheoliadau Cyfraniadau Ardrethu Annomestig (Cymru) (Diwygio) (Rhif 2) 2008

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *10 Tachwedd 2008* |
| *Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru* | *12 Tachwedd 2008* |
| *Yn dod i rym* | *31 Rhagfyr 2008* |

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau canlynol drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adrannau 60, 140(4) a 143(1) o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988 a pharagraffau 4 a 6 o Atodlen 8 iddi(**1**).

**Enwi, cychwyn a chymhwyso**

**1**.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Cyfraniadau Ardrethu Annomestig (Cymru) (Diwygio) (Rhif 2) 2008 a deuant i rym ar 31 Rhagfyr 2008.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

**Dirymu**

**2**. Dirymir Rheoliadau Cyfraniadau Ardrethu Annomestig (Cymru) (Diwygio) 2008(**2**).

(**1**) 1988 p.41. Cafodd y pwerau hyn eu datganoli, o ran Cymru, i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672), *gweler* y cyfeiriad at Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988 yn Atodlen 1. Yn rhinwedd adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32), a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r swyddogaethau hynny'n arferadwy gan Weinidogion Cymru.

(**2**) O.S. 2008/2838 (Cy. 252).

WELSH
STATUTORY INSTRUMENTS

# 2008 No. 2929 (W.258)

# RATING AND VALUATION, WALES

## The Non-Domestic Rating Contributions (Wales) (Amendment) (No. 2) Regulations 2008

| | |
|---|---|
| *Made* | *10 November 2008* |
| *Laid before the National Assembly for Wales* | *12 November 2008* |
| *Coming into force* | *31 December 2008* |

The Welsh Ministers make the following Regulations in exercise of the powers conferred on the Secretary of State by sections 60, 140(4) and 143(1) of, and paragraphs 4 and 6 of Schedule 8 to, the Local Government Finance Act 1988(**1**).

**Title, commencement and application**

**1**.—(1) The title of these Regulations is The Non-Domestic Rating Contributions (Wales) (Amendment) (No.2) Regulations 2008 and they come into force on 31 December 2008.

(2) These Regulations apply in relation to Wales.

**Revocation**

**2**. The Non-Domestic Rating Contributions (Wales) (Amendment) Regulations 2008(**2**) are revoked.

(**1**) 1988 c.41. These powers were devolved, in relation to Wales, to the National Assembly for Wales by the National Assembly for Wales (Transfer of Functions) Order 1999 (S.I. 1999/672), *see* the reference to the Local Government Finance Act 1988 in Schedule 1. By virtue of section 162 of, and paragraph 30 of Schedule 11 to, the Government of Wales Act 2006 (c.32) those functions are exercisable by the Welsh Ministers.

(**2**) S.I. 2008/2838 (W.252).

**Diwygio Rheoliadau Cyfraniadau Ardrethu Annomestig (Cymru) 1992**

**3**.—(1) Diwygir Rheoliadau Cyfraniadau Ardrethu Annomestig (Cymru) 1992(**1**) fel a ganlyn parthed blynyddoedd ariannol sy'n dechrau ar neu ar ôl 1 Ebrill 2009.

(2) Yn lle atodlen 4, rhoddir yr atodlen a osodir yn yr Atodlen i'r Rheoliadau hyn.

**Amendment to the Non-Domestic Rating Contributions (Wales) Regulations 1992**

**3**.—(1) The Non-Domestic Rating Contributions (Wales) Regulations 1992(**1**) are amended as follows in relation to financial years beginning on or after 1 April 2009.

(2) For schedule 4 there is substituted the schedule set out in the Schedule to these Regulations.

*Brian Gibbons*

Y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol, un o Weinidogion Cymru

Minister for Social Justice and Local Government, one of the Welsh Ministers

10 Tachwedd 2008

10 November 2008

(**1**) O.S. 1992/3238, a ddiwygiwyd gan O.S. 1993/1505, 1993/3077, 1994/547, 1994/1742, 1994/3125, 1995/3235, 1996/619, 1996/3018, 1997/3003, 1998/2962, 1999/3439 (W.47), 2000/3382 (W.220), 2001/3910 (W.322), 2002/3054 (W.289), 2003/3211 (W.304), 2004/3232 (W.280), 2005/3345 (W.259), 2006/3347 (W.307) a 2007/3343 (W.295).

(**1**) S.I. 1992/3238, amended by S.I. 1993/1505, 1993/3077, 1994/547, 1994/1742, 1994/3125, 1995/3235, 1996/619, 1996/3018, 1997/3003, 1998/2962, 1999/3439 (W.47), 2000/3382 (W.220), 2001/3910 (W.322), 2002/3054 (W.289), 2003/3211 (W.304), 2004/3232 (W.280), 2005/3345 (W.259), 2006/3347 (W.307) and 2007/3343 (W.295).

YR ATODLEN

Rheoliad 3

SCHEDULE

Regulation 3

"SCHEDULE 4

ADULT POPULATION FIGURES

| **Billing authority area** | **Prescribed figure** |
|---|---|
| Blaenau Gwent | 54,000 |
| Bridgend | 104,800 |
| Caerphilly | 132,600 |
| Carmarthenshire | 141,700 |
| Cardiff | 253,600 |
| Ceredigion | 64,000 |
| Conwy | 89,200 |
| Denbighshire | 76,800 |
| Flintshire | 117,800 |
| Gwynedd | 94,000 |
| Isle of Anglesey | 54,700 |
| Merthyr Tydfil | 43,100 |
| Monmouthshire | 69,100 |
| Neath Port Talbot | 108,400 |
| Newport | 107,400 |
| Pembrokeshire | 92,200 |
| Powys | 104,600 |
| Rhondda Cynon Taf | 182,400 |
| Swansea | 182,200 |
| Torfaen | 70,800 |
| Vale of Glamorgan (The) | 95,900 |
| Wrexham | 103,700 |

"

©ⓗ Hawlfraint y Goron 2008

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Carol Tullo, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

© Crown copyright 2008

Printed and Published in the UK by the Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Carol Tullo, Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

**2008 Rhif 2929 (Cy.258)**

**ARDRETHU A PHRISIO, CYMRU**

Rheoliadau Cyfraniadau Ardrethu Annomestig (Cymru) (Diwygio) (Rhif 2) 2008

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

**2008 No. 2929 (W.258)**

**RATING AND VALUATION, WALES**

The Non-Domestic Rating Contributions (Wales) (Amendment) (No. 2) Regulations 2008

**£5.00**

W395/11/08 ON